Adroddiad ar

Cylch Meithrin Llanbrynmair

Canolfan Gymunedol
Llanbrynmair
Powys
SY19 7AB

Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2025

gan

Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)

a

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn â Cylch Meithrin Llanbrynmair

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Cylch Meithrin Llanbrynmair |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal dydd sesiynol. |
| Person(au) cofrestredig | |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol) | Anwen Davies |
| Person â gofal | Lisa Thomas |
| Nifer y lleoedd | 14 |
| Amrediad oedran y plant | 2 – 4 oed |
| Nifer y plant 3 a 4 mlwydd oed | 3 |
| Nifer y plant sy'n cael eu hariannu ar gyfer addysg gynnar | 3 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | Dydd Llun a Dydd Mawrth 12.30 – 15.30<br>Dydd Iau – 9.00 – 12.00 |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Nac oes |
| Iaith y lleoliad | Cymraeg |
| A yw'r Cynnig Gofal Plant ar gael yn y lleoliad hwn? | Nac ydy |
| Cynnig y Gymraeg yn Rhagweithiol | Mae'r gwasanaeth hwn yn rhagweld, yn nodi, ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth neu a allai ei ddefnyddio. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | 12 Rhagfyr 2023 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | 22 Rhagfyr 2017 |
| Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 09/06/2025 |

## Crynodeb

| Thema | Barn |
|---|---|
| **Lles** | **Da** |
| **Dysgu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | |
| **Gofal a datblygiad** | **Da** |
| **Addysgu ac asesu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Yr amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Diffyg cydymffurfio

Ni chanfyddwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfiaeth yn ystod yr arolwg yma.

## Argymhellion

A1. Dyfnhau ymhellach dealltwriaeth arweinwyr ac ymarferwyr o ofynion y cwricwlwm.

A2. Sicrhau cyfleoedd addas i ddatblygu ymwybyddiaeth plant o gynhwysiad a diwylliannau eraill.

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy’n dangos sut y bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

**Lles: Da**

Mae gan blant lais cryf ac maent yn gwneud dewisiadau a phenderfyniadau annibynnol am sut i dreulio eu hamser yn y lleoliad. Maent yn manteisio ar amrywiaeth o weithgareddau ac adnoddau diddorol i lywio eu cyfleoedd chwarae ac i ddatblygu eu syniadau eu hunain. Mae bron bob plentyn yn cyfathrebu'n hyderus, ac yn gwybod y bydd yr ymarferwyr yn gwrando arnynt ac yn ymateb yn briodol.

Mae gweithdrefnau setlo cadarn a hyblyg yn helpu'r plant i deimlo'n ddiogel a chaniatáu iddynt ymlacio. Mae bron bob plentyn yn cyrraedd yn hapus ac yn mynd ati i chwarae'n ddidrafferth gan deimlo'n gartrefol. Mae bron bob plentyn yn meithrin cydberthnasau cynnes ac agos gydag ymarferwyr ac yn gwybod y gallent sôn wrthynt am yr hyn y maent eisiau. Er enghraifft, maent yn gofyn am fynd allan i chwarae wedi amser cylch, neu'n holi am fwy o lefrith neu ddŵr amser snac yn hyderus.

Mae bron bob plentyn yn ymddwyn yn briodol ar gyfer eu hoedran a'u camau datblygiad. Mae bron bob plentyn yn cyd-chwarae neu'n chwarae ochr yn ochr â'i gilydd yn aeddfed ac yn dysgu aros eu tro a rhannu adnoddau yn dda. Er enghraifft, maent yn awyddus i rannu ffrwyth a phasio'r bowlen ymlaen i'w ffrind. Mae bron bob plentyn yn gyfarwydd iawn â threfniadau'r dydd. Maent yn dysgu i ddilyn rheolau a pharchu pobl eraill ac eiddo, er enghraifft wrth gydweithio er mwyn helpu tacluso.

Mae bron bob plentyn yn ymddiddori'n frwd ac yn chwarae am gyfnodau parhaus. Mae'r amrywiaeth eang o weithgareddau diddorol a chyffrous yn annog y plant i ganolbwyntio a dyfalbarhau am gyfnodau hir. O ganlyniad, mae bron bob un yn treulio cyfnodau estynedig mewn gweithgareddau o'u dewis, er enghraifft wrth rasio trwy cwrs rhwystr nifer o weithiau. Mae cyfnodau grŵp dan arweiniad ymarferwyr o fudd i'r plant ddysgu ar y cyd, ac mae cyfnodau amser cylch a chanu yn rhoi cyfleoedd gwerthfawr iddynt ddatblygu eu geirfa. Ar y cyfan, mae'r plant yn dangos brwdfrydedd wrth ymuno yn y sesiynau hyn. Yn ystod sgyrsiau achlysurol gydag ymarferwyr mae'r plant yn datblygu adnabyddiaeth o lythrennau sydd yn eu henwau'n hyderus ac yn cyfri sanau sydd yn hongian ar ffens yn gynhyddol gywir.

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn meithrin annibyniaeth ac yn cyflawni tasgau ymarferol yn llwyddiannus. Er enghraifft, maent yn gwisgo a thynnu dillad chwarae rôl yn fedrus , ac yn cyflawni hanghenion personol fel golchi a sychu dwylo, dewis byrbryd ac arllwys diod yn annibynnol.

## Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir):

Nid oes adroddiad ar y plant yn dysgu. Mae hyn oherwydd bod nifer y plant tair neu bedair oed oedd yn bresennol adeg yr arolygiad nad ydynt yn cael addysg a ariennir yn rhywle arall yn rhy fach i adrodd arni heb adnabod plant.

## Gofal a datblygiad: Da

Mae arweinwyr wedi datblygu amrywiaeth gynhwysfawr o bolisïau a gweithdrefnau perthnasol sy'n cefnogi ymarferwyr i gadw'r plant yn ddiogel. Cânt eu hadolygu bob blwyddyn. Mae arweinwyr ac ymarferwyr yn meddu ar wybodaeth gadarn am sut i amddiffyn plant ac yn gwybod beth i'w wneud os bydd ganddynt unrhyw bryderon. Mae ymarferwyr yn gweithio i gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach yn effeithiol. Maent yn dilyn polisïau a gweithdrefnau trwyadl y lleoliad mewn perthynas â hylendid, iechyd a diogelwch. Maent yn cwblhau cofnodion perthnasol a manwl ar gyfer damweiniau a digwyddiadau. Mae arweinwyr yn hyrwyddo ffyrdd iach o fyw trwy ddarparu byrbrydau iach, a llaeth neu ddŵr i'r plant yfed. Mae'r plant yn treulio llawer o amser tu allan sy'n sicrhau eu bod yn elwa o  awyr iach a chyfleoedd i ymarfer eu cyrff. Maent yn cadw cofrestrau presenoldeb cywir, llyfr ymwelwyr ac yn cynnal ymarferion tân, sy'n cyfrannu at sicrhau darpariaeth ddiogel i'r plant yn llwyddiannus. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae ymarferwyr yn ofalgar ac yn gefnogol. Maent yn rhyngweithio â'r plant mewn ffordd gynnes, hamddenol a chyfeillgar, gan greu awyrgylch hapus a bywiog. Mae ymarferwyr yn dilyn polisi rheoli ymddygiad addas sy'n eu annog  i ddefnyddio technegau cadarnhaol fel esbonio ac arddangos. Maent yn arddel esiampl da ac yn siarad yn bwyllog a pharchus â'r plant.. Er enghraifft, maent yn diolch i'r plant am helpu tacluso ac yn eu canmol am aros eu tro. O ganlyniad, mae'r plant yn datblygu i reoli eu hymddygiad yn dda mewn awyrgylch sy'n hyrwyddo hunan-barch ac empathi.

Mae ymarferwyr yn llwyddo i ddiwallu anghenion bob plentyn yn effeithiol, gan gynnwys plant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Maent yn cynnal cyfarfodydd cyn mynediad ac yn casglu gwybodaeth personol am bob plentyn sy'n llwyddo i gefnogi plant a'u teuluoedd yn dda. O ganlyniad mae eu hadnabyddiaeth o'r plant yn eithriadol o dda. Mae ymarferwyr yn cydweithio'n effeithiol ag asiantaethau allanol fel athrawon ymgynghorol yr awdurdod lleol ac yn gweithredu ar wybodaeth y cawsant yn dilyn hyfforddiant. O ganlyniad, mae pob plentyn yn gwneud cynnydd da yn eu datblygiad.

Mae ymarferwyr yn ymatebol iawn i anghenion unigol y plant. Maent yn treulio'u hamser yn cyd-chwarae am gyfnodau hir sy'n cefnogi ac ehangu'r dysgu'r plant yn effeithiol. Yn ystod yr adegau yma maent yn defnyddio amrywiaeth eang o iaith fathemategol, archwilio llyfrau, trafod syniadau a hyrwyddo'r Gymraeg yn llwyddiannus. Mae arweinwyr ac

ymarferwyr yn cynllunio amrywiaeth o weithgareddau a phrofiadau perthnasol a chyffrous ym mhob un o'r meysydd dysgu. Maent yn ystyried hoff deganau, offer a diddordebau'r plant wrth gynllunio, ac yn deall pwysigrwydd caniatáu iddynt barhau i chwarae am gyfnodau estynedig pan fydd gweithgareddau yn eu diddori.

## Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da

Mae ymarferwyr yn meddu ar berthynas hyfryd â'r plant ac yn dangos gofal arbennig dros bob un. Maent yn frwdfrydig dros gyflawniadau'r plant ac yn dangos diddordeb naturiol yn eu hymdrechion. Mae hyn yn arwain at blant sy'n ymateb yn gadarnhaol i arweiniad oedolyn ac yn dangos dyfalbarhad a dygnwch yn eu gweithgareddau. Er enghraifft, wrth iddynt ddal ati i groesi cwrs rwystrau heb gyffwrdd â'r llawr.

Mae ymarferwyr yn dilyn diddordebau a phrofiadau'r plant wrth gynllunio. Maent yn gwrando ar eu syniadau ac eu cynnwys wrth feddwl am weithgareddau symbylus a phwrpasol. Er enghraifft, yn dilyn ymweliad plentyn â pharc gwyliau penderfynwyd ddilyn thema ar ddeinosoriaid. Mae ymarferwyr yn dechrau datblygu eu dealltwriaeth o'r cwricwlwm ac yn rhoi ystyriaeth deg i anghenion a chyrhaeddiad unigol pob plentyn wrth gynllunio'r ddarpariaeth.

Yn ystod eu sesiynau dysgu mae ymarferwyr yn adnabod cyfleoedd rheolaidd i feithrin gwerthoedd fel gonestrwydd, tegwch a pharch. Maent yn annog plant i rannu teganau ac aros eu tro, er enghraifft wrth beintio llun. Mae ymarferwyr wedi creu ardal feddygfa symbylus sy'n annog plant i ofalu am ei gilydd a deall rôl 'pobl sy'n helpu' yn effeithiol. Mae hyn yn cyfrannu at ddatblygu dealltwriaeth o garedigrwydd ac empathi yn llwyddiannus. Er hyn, prin iawn yw'r cyfleoedd i blant ddatblygu eu dealltwriaeth o gynhwysiad a diwylliannau eraill.

Mae ymarferwyr yn cynllunio profiadau dysgu sy'n adeiladu'n systematig ar wybodaeth, dealltwriaeth a medrau'r plant. Maent yn sicrhau cyfleoedd buddiol i'r plant atgyfnerthu eu medrau gyda'i rhieni trwy anfon pecynnau o weithgareddau addas i'w mwynhau adref. Er enghraifft, mae gweithgareddau fel dilyn rysáit, a rhannu llyfrau yn annog mwynhâd gyda'r teulu. Gyda'i gilydd, mae'r ymarferwyr a rhieni yn sicrhau bod plant yn barod ar gyfer y cam nesaf yn eu datblygiad.

Mae ymarferwyr yn trefnu ymweliadau buddiol â'r gymuned sy'n cynnig cyfleodd da i blant ddysgu mewn amgylchedd symbylus a gwahanol. Er enghraifft, mae cyfleoedd i ddawnsio a chanu caneuon cyfarwydd wrth wylio sioe byw yng nghwmni plant eraill yn cyfrannu'n werthfawr at ehangu sgiliau cymdeithasol y plant yn effeithiol.

Mae ymarferwyr yn sicrhau cyfleoedd gwerthfawr i blant ymchwilio a darganfod y byd o'u cwmpas a sut i ofalu amdano. Mae plannu hadau a gofalu am blanhigion fel blodau'r haul

yn cyfrannu at ddatblygu brwdfrydedd plant at fyd natur a'u gallu i werthfawrogi eu cynefin yn llwyddiannus.

Mae ymarferwyr yn hyrwyddo diwylliant Cymru'n effeithlon trwy gynllunio cyfleoedd i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi, dysgu am Santes Dwynwen a chanu rhigymau syml. Yn ogystal, maent yn cymryd rhan bwrpasol yn Eisteddfod Hen Gapel y pentref. Gyda'i gilydd, mae'r gweithgareddau yma yn cyfrannu at datblygu medrau cyfathrebu a chorfforol y plant a'u hymdeimlad o berthyn i'r gymuned leol yn briodol.

Mae'r ymarferwyr yn llwyddo i gynnig amgylchedd ysgogol ac heriol y tu mewn a thu allan sy'n annog ymglymiad, chyfranogiad a mwynhad y plant yn eu gweithgareddau. Maent yn dilyn arweiniad y plant ac yn addasu gweithgareddau er mwyn sicrhau dysgu pellach. Mae ymarferwyr yn manteisio ar gyfleoedd buddiol i ddatblygu medrau creadigol a gwyddonol y plant, er enghraifft wrth arsylwi ar liwiau'n cymysgu wrth iddynt lifo lawr ffenest neu wylio chwilen yn cerdded o dan chwyddwydr.

Mae ymarferwyr yn gwneud arsylwadau rheolaidd sy'n cofnodi datblygiad y plant yn eu medrau yn effeithiol ac yn hylaw. Yn ogystal, mae ymarferwyr yn nodi'r cam nesaf yn natblygiad y plant yn glir. Mae deilliannau'r arsylwadau'n cyfrannu at gynllunio gweithgareddau pellach sy'n seiliedig ar ddilyn diddordebau'r plant. Mae hyn yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i'r plant ddyfnhau eu dealltwriaeth a datblygu medrau newydd.. Gyda'i gilydd, mae ymarferwyr yn sicrhau datblygiad cytbwys y plant ar draws yr holl fedrau.

## Yr amgylchedd: Da

Mae'r lleoliad wedi ei leoli ar safle'r ysgol gynradd leol ac yn cael ei gynnal yn dda iawn. Mae'r safle'n ddiogel a'r drysau wedi'u cloi sy'n atal mynediad oni bai fod ganddynt ganiatâd. Mae arweinwyr yn blaenoriaethu diogelwch plant trwy ddarparu gweithdrefnau sy'n sicrhau bod unrhyw beryglon posibl yn cael eu hadnabod, eu monitro a'u rheoli'n effeithiol. Maent wedi llunio asesiadau risg trylwyr sy'n amlinellu peryglon posibl a'r camau sydd angen eu cymryd i leihau neu atal risg i blant. Maent yn gwirio'r dogfennau yma'n gyson, ac yn cwblhau asesiadau ychwanegol ar gyfer unrhyw weithgaredd newydd, gan gynnwys teithiau allan o'r lleoliad. Mae ymarferwyr yn cwblhau gwiriadau dyddiol o'r ardaloedd chwarae, teganau ac adnoddau ac yn cadw cofnod o unrhyw gamau hylendid a diogeli pellach sydd angen eu dilyn. Maent yn delio gydag unrhyw beryglon sy'n cael eu canfod yn gyflym ac effeithiol.

Mae'r ystafell chwarae yn gyfforddus a chysurus gyda digon o le i blant symud o gwmpas yn rhwydd. Mae arweinwyr ac ymarferwyr yn meithrin ymdeimlad o berthyn trwy arddangos ffotograffau ac esiamplau o waith y plant ar y waliau. Maent yn sicrhau bod yr ystafell chwarae yn cynnig ystod eang o weithgareddau ac adnoddau ysgogol a chyffrous

sy’n cyfoethogi profiadau’r plant yn llwyddiannus. Er enghraifft, mae’r ystod o lyfrau darllen ac adnoddau marcio o fewn ardaloedd chwarae fel y feddygfa yn cefnogi datblygiad llythrennedd y plant yn dda wrth iddynt ysgrifennu presgripsiwn i glaf. Mae arweinwyr ac ymarferwyr yn sicrhau bod yr ardal chwarae tu allan yn cael ei ddefnyddio yn ddyddiol ac yn estyniad ar yr amgylchedd dysgu mewnol. Mae’r ardaloedd yn cynnig profiadau chwarae diddorol ac mae’r plant yn mynd a dod fel y dymunir yn ddiogel rhyngddynt. y gweithgar. Yn ogystal, mae’r plant yn cael mynediad i iard a chae’r ysgol sy’n eu galluogi i fanteisio ar offer dringo a chyfleoedd i gymryd risgiau pellach yn ddiogel dan oruchwyliaeth ymarferwyr.

Mae arweinwyr yn sicrhau bod yr ystod eang o adnoddau yn lân ac o ansawdd da. Maent yn cael eu storio ar lefel isel sy’n galluogi’r plant i ddewis yn annibynnol heb ymyrraeth oedolyn. Mae gan y lleoliad ddodrefn ac adnoddau maint addas er enghraifft, ceir byrddau a chadeiriau isel. Mae toiledau a chyfleusterau newid cewyn addas ar gael ar gyfer bob plentyn.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da

Mae gan arweinwyr weledigaeth glir. Maent yn meddu ar ddatganiad o ddiben sy’n cynnig darlun cywir o’r lleoliad ac yn cyfrannu’n gadarnhaol wrth gefnogi rhieni wneud penderfyniad clir am anfon eu plant i’r lleoliad. Mae gan pawb ymwybyddiaeth drylwyr o ofynion eu rôl ac yn cydweithio gyda’r arweinydd yn fedrus.

Mae arweinwyr yn gosod nodau ac amcanion clir sy’n canolbwyntio’n llwyddiannus ar anghenion y plant. Mae’r holl ymarferwyr yn eu deall a’u gweithredu mewn modd sensitif a chadarnhaol. Mae arweinwyr yn gosod amserlen briodol sy’n cyfrannu’n fedrus at yr ymdeimlad cartrefol sydd yna o fewn y lleoliad.

Mae arweinwyr yn mynd i’r afael â unrhyw chwynion neu bryderon mewn modd sensitif, gan drafod a gwneud penderfyniadau ar y cyd. Mae hyn yn cyfrannu at berthynas agos rhwng yr arweinwyr, ymarferwyr, rhieni a’r gymuned ehangach yn llwyddiannus. Mae arweinwyr yn dilyn gweithdrefnau recriwtio cadarn i gyflogi ymarferwyr sydd â chymwysterau addas. Maent yn gwneud defnydd addas o oruchwyliaeth ac arfarniadau i gefnogi ymarferwyr. Ni nodwyd unrhyw achos o dorri rheoliadau na safonau gofynnol cenedlaethol yn ystod yr arolygiad.

Mae arweinwyr yn buddsoddi mewn adnoddau buddiol ar gyfer cynnig gweithgareddau cyfoethog i’r plant. Maent yn gwneud defnydd da o gyllid sy’n arwain at welliant mewn ansawdd y gofal, chwarae a dysgu ar gyfer plant. Er enghraifft, mae’r ardal tu allan yn cynnig adnoddau pwrpasol sy’n cyfrannu at gynnydd a lles y plant yn effeithiol.

Wrth hunan werthuso a monitro ansawdd y ddarpariaeth mae arweinwyr yn barod i gydweithio a gwrando ar gyngor swyddogion cefnogi. Maent yn mynd i’r afael â’r

blaenoriaethu materion maent yn dymuno gwella mewn modd amserol. Mae arweinwyr yn sicrhau cyfleoedd rheolaidd i staff ymrwymo i hyfforddiant a datblygiad proffesiynol sydd yn berthnasol i'w swydd. Maent yn defnyddio cyfleoedd hyfforddiant i wella ansawdd y ddarpariaeth, ac i ddyfnhau dealltwriaeth ymarferwyr o'r cwricwlwm. Mae arweinwyr yn gwneud y gorau o gyfleodd i ymweld â lleoliadau tebyg o fewn yr ardal gan rannu sylwadau ac arferion â'i gilydd. Mae hyn yn arwain at ymarferwyr sy'n barod i arbrofi â syniadau newydd, cyn sefydlu arferion sy'n effeithiol.

Mae gan arweinwyr berthynas gadarn ac effeithiol â'r ysgol leol. Mae arweinwyr yn manteisio ar gyfleoedd i blant rannu amser chwarae gyda disgyblion ieuengaf yr ysgol. Mae hyn yn cyfrannu'n effeithiol at hwyluso'r drefniadaeth pontio. Mae arweinwyr ac ymarferwyr yn rhannu gwybodaeth gyfredol am ddatblygiad a chyrhaeddiad plant cyn iddynt drosglwyddo. Maent yn rhannu gwybodaeth dyddiol gyda rhieni a gofalwyr wrth iddynt ollwng a chodi eu plant. Mae arweinwyr yn cynnig cyfleoedd i rieni drafod materion sensitif gyda arweinwyr drwy gyfarfodydd pellach yn ôl yr angen.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://careinspectorate.wales) (www.estyn.llyw.cymru)

Mae AGC ac Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Cryfderau yn gorbwyso gwendidau ond mae angen gwelliannau |
| **Gwael** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau ac mae angen gwelliannau sylweddol |

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Prysg (Cymraeg i Saesneg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 11/08/2025